15 Chwefror 2016

At Faer y Dref a'r Cynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 22 CHWEFROR 2016** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams
Clerc y Dref

AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGAN BUDDIANNAU**
   Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.

3. **ADRODDIAD Y MAER**

4. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

5. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**
   Derbyn a mabwysiadu fel cywir gofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2016.

6. **MATERION YN CODI**

7. **PWYLLGOR AMWYNDERAU**
   Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2016 (copi melyn).

8. **PWYLLGOR CYNLLUNIO**
   Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2016 (copi gwyrdd).

9. TWRISTIAETH BYSIAU MOETHUS

Ystyried 'gofynion sylfaenol' hyrwyddo twristiaeth bysiau moethus cyn y cyfarfod Twristiaeth Bysiau Moethus nesaf a drefnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar 18 Ebrill. Y gofynion yw: arwyddion, lle parcio, mannau gollwng teithwyr, cyfleusterau i'r gyrrwr, hygyrchedd a thoiledau.

10. ASESIAD RISG BLYNYDDOL

Derbyn a chadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol (copi glas).

11. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

Derbyn a chadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol.

12. YMGYRCH TACLUSO'R DREF

Cytuno ar ddyddiad ar gyfer Ymgyrch Tacluso'r Dref 2016.

13. CAIS AM GYFRANIAD

Ystyried cais oddi wrth Nick Birch, Trysorydd Siambr Fasnach Rhuthun, i drosglwyddo £500 yn y gyllideb ar gyfer Siambr Fasnach Rhuthun yn y flwyddyn ariannol hon a blwyddyn ariannol 2014/15, ac ystyried parhau i ddarparu cymorth ariannol yn 2016/17 (copi pinc).

14. GOHEBIAETH

i. Gwahoddiad i ymaelodi ag Un Llais Cymru am y cyfnod 2016/17
ii. Gwahoddiad i noson gyflwyno flynyddol Cymdeithas Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd i'w chynnal yng Nghanolfan Ganser Gogledd Cymru, Bodelwyddan, ar 10 Mawrth 2016 am 7:00pm

15. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31ain Ionawr 2016 (copi gwyrdd).

16. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

854	Sandra Williams	Stampiau		21.60
855	Fineline Retail	Nwyddau swyddfa – cerdyn ac amlenni	*	34.40
D.U.	BT Business	Gwasanaethau band eang	*	71.40
856	Gwasanaethau Coed Cymru	Coed Nadolig 2016 ac ailosod y goeden ger Garej y Dyffryn yn dilyn difrod storm	*	1,320.00
857	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	108.00
858	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd (TAW anfoneb mis Ionawr)	*	18.00
859	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		259.43
860	Aerial Electrics Limited	Gosod goleuadau LED ar y coed Nadolig a thynnu'r harneisiau goleuadau ymaith i'w storio	*	3,792.00
861	Cyngor Sir Ddinbych	Casglu, gosod a thynnu'r goleuadau Nadolig ar lampau'r stryd i lawr	*	4,518.54
862	Siambr Fasnach Rhuthun	Cyfraniadau 2014/15 a 2015/16		1,000.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £1,809.34)

16. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau Nos Lun, 21 Mawrth 2016 fel dyddiad y cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.